**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-573
Ein cyf/Our ref LG/05328/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

8 Tachwedd 2014

Annwyl Bill

Rwy'n cyfeirio at eich llythyr dyddiedig 30 Hydref ynghylch Deiseb P-04-573 *Galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i'r System Lesddaliad Preswyl yng Nghymru.* Mae'r deisebydd wedi ysgrifennu i ymateb i'r cyn Weinidog Tai ac Adfywio, Carl Sargeant AC.

Mae'r deisebydd yn gywir wrth ddatgan bod rhai achosion sy'n cynnwys cynnydd mewn rhent tir o ganlyniad i gymalau adolygu rhent o fewn y les yn cael eu clywed gan yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tir). Dyma'r weithdrefn ar gyfer dadlau penderfyniadau a gyflwynir gan y Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau. Yr hyn yr ydym yn ei anghofio yma yw mai tribiwnlysoedd yw'r dull a ddefnyddir i apelio yn erbyn arferion annheg. Dyma ble y gellir sicrhau atebolrwydd.

Nid wyf eto wedi dod i wybod beth yw'r lefelau rhent tir diwygiedig sy'n cael eu cynnig gan Gyngor Abertawe i breswylwyr ystad Elba. Rwy'n gobeithio'n wir eu bod wedi dod at eu coed, a bod y rhentiau tir yn cael eu pennu ar lefel mwy rhesymol a fforddiadwy, fydd gobeithio yn osgoi yr angen i sicrhau atebolrwydd drwy'r system y tribiwnlysoedd.

Fel y dywed y deisebydd, mae Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad 1967 wedi bodoli ers 47 mlynedd. Mae hyn wedi rhoi digon o amser i unrhyw broblemau ymddangos, ond nid yw hyn wedi digwydd. Nid oes tystiolaeth o broblem amlwg yng Nghymru.

Bydd yr adroddiad gan y Gwasanaeth Cynghori ar Lesddaliadau ar gael i Aelodau'r Cynulliad unwaith y bydd y fersiwn derfynol wedi dod i law.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*

*Printed on 100% recycled paper*